OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2787 (Cy. 299)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Comins-coch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *21 Tachwedd 2011*

Yn dod i rym *3 Rhagfyr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caersŵs i Fachynlleth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Rhagfyr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Comins-coch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 3 Rhagfyr 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd yng Nghomins-coch, yn Sir Powys, sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2083 (Capel Tŷ Cerrig) hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r C2082 (The Terrace).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Tachwedd 2011.

G R Morgan
G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.